# PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 18 Ebrill, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd G. Bruce, L. Burnett, V.P. Driscoll, R. Fisher, E. Goodjohn, H.C. Hamilton, W.A. Hennessy, N.B. Marshallsea, M.J.G. Morgan, R. Sivagnanam a S.T. Wiliam.

## 895 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 896 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr C.P. Franks a M.R. Wilkinson.

## 897 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2023 fel cofnod cywir.

## 898 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 899 EITHRIAD RHAG GOFYNION PLÂT LLOGI PREIFAT A STICER DRWS (CAT) -

Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno gan Reolwr y Tîm Trwyddedu i'r Pwyllgor ystyried cais gan Mr. Rhys Wilton i gael ei eithrio o'r gofyniad i arddangos sticeri drysau neu blât trwydded ar ei Gerbyd Hurio Preifat.

Dwedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod Mr Wilton wedi cadarnhau nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod ond ei fod wedi egluro ei fod yn fodlon i'r mater gael ei glywed yn ei absenoldeb a'i fod yn deall y byddai'r Pwyllgor ond yn gallu gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y cyflwyniadau a dderbyniwyd a oedd wedi cael eu dosbarthu i Aelodau.

Holodd sawl Aelod a ddylid gohirio'r mater er mwyn caniatáu i'r ymgeisydd allu bod yn bresennol fel bod Aelodau'r Pwyllgor a'r ymgeisydd yn gallu gofyn ac ateb cwestiynau am y cyflwyniad. Rhoddodd y Cadeirydd y cynnig i ohirio'r mater i bleidlais a chytunwyd yn unfrydol o blaid gohirio'r mater i gyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu Diogelu'r Cyhoedd yn y dyfodol, y byddai ei ddyddiad yn cael ei gytuno gyda'r ymgeisydd, er mwyn i'r ymgeisydd fynychu'r cyfarfod a chaniatáu i bob parti ymhelaethu ar y cais er mwyn penderfynu ar y cais.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Cyngor:

BENDERFYNU - BOD y mater yn cael ei ohirio i gyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu Diogelu'r Cyhoedd yn y dyfodol, y byddai ei ddyddiad yn cael ei gytuno gyda'r ymgeisydd, er mwyn i'r ymgeisydd fynychu'r cyfarfod a chaniatáu i bob plaid ymhelaethu ar y cais er mwyn penderfynu ar y cais.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Er mwyn i'r Aelodau allu gwneud penderfyniad yn seiliedig ar yr opsiynau sydd ar gael mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu Diogelu'r Cyhoedd lle byddai'r ymgeisydd yn bresennol.

900 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

901 CANIATÁU TRWYDDEDAU – K (CAT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr y Tîm Trwyddedu er mwyn i'r Pwyllgor benderfynu a oedd S yn berson addas a phriodol i ddal Trwyddedau Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat Bro Morgannwg.

Hysbysodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu'r Pwyllgor fod S hefyd yn bresennol yn y gwrandawiad, yn gallu cymryd rhan lawn yn y gwrandawiad ac wedi derbyn y papurau a oedd hefyd wedi cael eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.

Hysbysodd y Prif Gyfreithiwr ynghylch y drefn ar gyfer y cyfarfod gydag S gan gadarnhau eu bod yn deall y broses.

Cyfeiriodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu at ddogfen ychwanegol a oedd, yn dilyn cais gan S, wedi cael ei dosbarthu i Aelodau cyn y cyfarfod er mwyn ei hystyried.

Roedd gofynion cyn trwyddedu yn gofyn bod Tystysgrif Datgelu a Gwahardd yn cael ei chomisiynu yr oedd S wedi cydsynio iddi ac roedd y dystysgrif honno'n cynnwys euogfarn oedd yn dod o fewn y polisi euogfarnau. Roedd yr euogfarn a restrwyd ar y Dystysgrif Datgelu a Gwahardd wedi'i rhestru yn Atodiad B yr adroddiad. Roedd y mater wedi cael ei glywed yn Llys y Goron Caerdydd a chafodd manylion y ddedfryd eu cynnwys yn Atodiad B yr adroddiad hefyd.

Ychwanegodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod S wedi dal Trwyddedau Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod yn y gorffennol, a'u bod wedi caei eu diddymu, gyda manylion amdanynt wedi'u cynnwys yn Atodiad A yr adroddiad.

Yn ystod yr ymchwiliad, daeth i'r amlwg bod S wedi torri'r amod safonol sydd ynghlwm â thrwyddedau i yrwyr trwy gelu manylion arestiad am y mater a nodwyd yr euogfarn berthnasol ym Mharagraff 1.11 yr adroddiad.

Cyfeiriodd paragraff 2.9 at Ganllawiau ar Benderfynu ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau yn y Masnachau Hacni a Hurio Preifat a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Trwyddedu Diogelu'r Cyhoedd a nododd pan oedd gan ymgeisydd 'euogfarn am unrhyw drosedd o anonestrwydd, neu unrhyw drosedd lle mae anonestrwydd yn elfen o'r drosedd, ni fydd trwydded yn cael ei rhoi nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd."

Yn dilyn sesiwn holi ac ateb yn y cyfarfod dwedodd y Prif Gyfreithiwr y byddai'r Pwyllgor yn ystyried y cais yn breifat ac y byddai S yn cael gwybod o fewn yr wythnos nesaf am benderfyniad yr Aelodau a gadawodd S y cyfarfod.

PENDERFYNWYD – ar ôl ystyried ffeithiau'r adroddiad a pholisi’r Cyngor yn ofalus, ac ar ôl clywed gan S, penderfynodd yr Aelodau nad oedd S yn berson addas a phriodol i ddal Trwyddedau Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad a'r cyflwyniadau a wnaed gan S a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd cyn y cyfarfod. Roedd hefyd wedi ystyried y Canllawiau ar Benderfynu ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau yn y Masnachau Hacni a Hurio Preifat a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu Diogelu'r Cyhoedd. Ystyriodd y Pwyllgor y Canllawiau a nodir yn adrannau 2.1 i 2.8 yr adroddiad ac yn benodol adran 2.9 lle bu’n ystyried y meini prawf, pan oedd gan ymgeisydd "euogfarn am unrhyw drosedd o anonestrwydd, neu unrhyw drosedd lle mae anonestrwydd yn elfen o'r drosedd, ni fydd trwydded yn cael ei rhoi nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a roddwyd."

Penderfynodd y pwyllgor beidio â rhoi'r drwydded gan nad oeddent yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol yn unol â'r prawf cyfreithiol fel y nodwyd

yn yr adroddiad.  Ni chynigiodd yr ymgeisydd unrhyw reswm pam y dylai'r pwyllgor wyro oddi wrth ei bolisi o ran trin euogfarnau blaenorol.  Nid oeddent yn fodlon bod unrhyw gyfiawnhad dros ddatgymhwyso'r polisi ynghlwm â'r drosedd a arweiniodd at anghymwyso rhag gyrru, gan nodi nad oedd 7 mlynedd wedi mynd heibio eto ers yr euogfarn ac ni ellid sefydlu unrhyw ddadl gref i gyfiawnhau gwyro oddi wrth y polisi.